# PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 14 Ionawr 2022**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.K.Hunt** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.L.Taylor** |
| **Cynghorwyr**: | D.Cawsey, S.M.Penry, S.Pursey, S.Rahaman, N.T.Hunt, S.Bamsey, J.Evans a/ac S.A.Knoyle |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Brennan, K.Davies, C.Jones, T.Davies a/ac C.Plowman |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr A.Wingrave a/ac L.Jones |

---

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr Aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Rahaman | Parthed: Adroddiad ynghylch y Diweddaraf am Dwristiaeth, 2022, gan ei fod yn gweithio mewn bwyty ar lan môr Aberafan yng Nghastell-nedd Port Talbot |

## 2. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Dewisodd y pwyllgor graffu ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Adroddiad ynghylch y Diweddaraf am Dwristiaeth, 2022

Darparwyd adroddiad i'r Aelodau ynghylch y diweddaraf am Dwristiaeth ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Cyfeiriwyd at ymgysylltu, cyrhaeddiad a nifer y bobl sy'n ei 'hoffi' ar gyfryngau cymdeithasol. Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn

gweld cyrhaeddiad yr ymgyrch farchnata y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol, a gofynnwyd a oedd dadansoddiad, yn ddaearyddol, o rywfaint o'r data hwnnw, yn enwedig mewn perthynas â dilynwyr cyfryngau cymdeithasol. Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn ymchwilio i ba ddata y gellid ei dynnu ynghyd; fodd bynnag, gofynnwyd i'r Aelodau gadw mewn cof mai dim ond am bedwar mis yr oedd yr ymgyrch wedi bod yn rhedeg yn ystod cyfnod y gaeaf. Byddai swyddogion yn dosbarthu'r data ar ôl iddo gael ei goladu.

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn dweud y byddai Aelodau a rhanddeiliaid yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn gweithdai fel rhan o'r broses, i ddyfeisio'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau newydd; ac yn amodol ar gaffael, dylai'r cynllun newydd fod ar waith erbyn haf 2022. Gofynnodd yr Aelodau pryd y byddai'r gweithdai'n cael eu cynnal. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd y contractwr ar gyfer y gweithdai wedi'i benodi eto; unwaith y caiff ei benodi, byddai'r trefniadau'n cael eu rhoi ar waith o ran amserlenni. Esboniodd swyddogion y byddai'r gweithdai'n cael eu cynnal ar-lein pe bai cyfyngiadau'n dal i fod ar waith; os yn bosib, byddant yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb.

Gofynnodd y Pwyllgor a allai Swyddogion fonitro'r defnydd o safleoedd gyda chyflenwad trydan a oedd ar waith ar draws y Fwrdeistref Sirol; ac os nodwyd eu bod yn cael eu defnyddio'n aml, gofynnwyd a fyddai'n bosib ymchwilio i leoedd eraill ar draws y Fwrdeistref Sirol, a allai elwa o gyflenwadau trydanol.

O ran y cysylltiadau cludiant cyhoeddus â thwristiaeth, gofynnwyd sut roedd y cyngor yn annog ymwelwyr i gyrraedd Castell-nedd Port Talbot (CNPT) drwy gludiant cyhoeddus, a sut roedd y cyngor yn ymgysylltu â'r gwahanol weithredwyr trafnidiaeth. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod cludiant cyhoeddus i deithio i'r cyrchfan, ac o'i gwmpas, yn ystyriaeth allweddol i ymwelwyr, ond roedd problemau amrywiol o ran argaeledd ac amlder gwasanaethau ar gyfer llawer o gynghorau. Dywedwyd bod costau sylweddol yn gysylltiedig â rhoi cymhorthdal i wasanaethau, ac anawsterau wrth berswadio pobl i ddefnyddio'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus, gan ei bod weithiau'n anodd cyrraedd lleoedd a/neu byddai'n cymryd amser hir iawn; y ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu anghenion ymwelwyr a bod yn gyfleus iddynt ei defnyddio. Er gwaethaf y problemau, hysbyswyd yr Aelodau fod y cyngor wedi gweithio gyda Bay Trans a oedd wedi llunio cyfres o 'Droeon i'w cyrraedd ar Fws' gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn CNPT; roedd y cyngor hefyd yn gweithio gyda Great Western Railway ar hyn o bryd, ac roedd yr

ardal i'w chynnwys yn eu hymgyrch arfaethedig, gyda phosteri mewn gorsafoedd trên/ar drenau ac ar gyfryngau cymdeithasol. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd y materion hyn yn unigryw i CNPT; roedd llawer o ardaloedd eraill yng Nghymru mewn sefyllfa debyg, yn enwedig lle mae gan awdurdodau gymysgedd o dirweddau gwledig amrywiol.

Gofynnwyd i swyddogion ddarparu gwybodaeth am yr ymatebion i'r Ymgyrch Marchnata Cyrchfannau, gan newyddiadurwyr yng Nghymru a'r tu allan iddi; holwyd hefyd a oedd unrhyw gynlluniau i ehangu'r gwaith hyrwyddo i gyhoeddiadau/wasanaethau ar-lein eraill. Cadarnhawyd bod y Tîm ar hyn o bryd yn gweithio ar gael sylw cenedlaethol yn y wasg. Fodd bynnag, hysbyswyd yr Aelodau mai nod yr ymgyrch oedd ymgysylltu'n uniongyrchol â chynulleidfaoedd; roedd yn anodd olrhain cynnydd ar hyn drwy ryddhau erthyglau mewn papurau, yn hytrach roedd Swyddogion yn olrhain ac yn mesur llwyddiant drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a dadansoddeg gwefannau etc. Roedd rhai enghreifftiau o hysbysebu â thâl yn cynnwys Bristol Live a Birmingham Live gyda Reach PLC; Roedd swyddogion hefyd wedi bod yn ymgysylltu â chyhoeddiadau fel Active Traveller Magazine sy'n apelio at farchnad darged allweddol. Rhoddodd swyddogion sicrwydd i'r Aelodau y byddent yn manteisio ar bob cyfle i farchnata'r ymgyrch, ac roeddent mewn trafodaethau â gwahanol gwmnïau sy'n anfon datganiadau i'r wasg; Yn ddiweddar cyhoeddodd Golwg erthygl ar yr ymgyrch ar ôl dangos diddordeb yn y gwaith oedd yn cael ei wneud. Soniwyd bod yr ymgyrch yn y camau cynnar, ac roedd Swyddogion yn bwriadu marchnata'r gwaith hwn hyd at ddiwedd 2022; disgwylid llawer mwy i ddangos diddordeb ynddi yn y misoedd i ddod.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y cyngor yn marchnata'r ymgyrch yng Nghymru, yn ogystal â'r tu allan i Gymru; gan nad yw rhai pobl yn yr ardal, a'r ardaloedd cyfagos, yn gwybod beth oedd gan CNPT i'w gynnig o ran cyrchfannau twristiaeth. Er bod trigolion Cymru'n rhan o'r farchnad darged, nodwyd nad oedd cyllideb wedi'i neilltuo i fynd ati i dargedu cyfryngau lleol gan mai diben yr ymgyrch oedd annog seibiannau byr/arosiadau dros nos; byddai cyfryngau lleol yn helpu i dargedu ymwelwyr dydd ond nid oedd hyn yn un o amcanion yr ymgyrch ar hyn o bryd. Soniodd swyddogion fod annog seibiannau byr ac arosiadau dros nos yn amcan allweddol, a'r rheswm pam yr ailsefydlwyd y Tîm Twristiaeth; Roedd 91% o ymwelwyr CNPT eisoes yn ymwelwyr dydd, ac roedd yn hysbys o ymchwil, er bod croeso i ymwelwyr dydd ac y byddant yn cael eu hannog, fod yr ymwelwyr a

oedd yn aros dros nos yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi leol. Er nad oedd Swyddogion wrthi'n targedu'r wasg leol, tynnwyd sylw at y ffaith y byddent yn ymwybodol o'r datganiadau i'r wasg a'r newyddion a gyhoeddwyd ynglŷn â'r gwaith hwn; pe bai unrhyw gyfle'n codi, byddai Swyddogion yn bwrw ymlaen ag ef, er na fyddai'r cyngor o reidrwydd yn talu am farchnata.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch darpariaethau gwersylla a chyfleusterau cyflenwadau trydan ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Yn dilyn sôn am Barc Gwledig y Gnoll, dywedodd Swyddogion fod amodau cynllunio sensitif yn gysylltiedig â'r ardal oherwydd ei fod yn dirwedd restredig; roedd hyn yn golygu mai prin oedd yr opsiynau llety a ganiateir. Hysbyswyd y Pwyllgor fod y gwaith o amgylch Prif Gynllun y Gnoll yn cynnwys edrych ar wahanol opsiynau llety ar gyfer y Gnoll; daethpwyd i'r casgliad bod darparu podiau/llety hunanarlwyo yn addas ac y byddai'n ateb y galw gan ymwelwyr. Soniodd swyddogion eu bod yn ystyried opsiynau ariannu i fwrw ymlaen â hyn.

O ran darparu gwersylla a charafanio, tynnwyd sylw at y ffaith bod y cyngor wedi derbyn nifer o ymholiadau gan unigolion â thir, a oedd am sefydlu safleoedd ar gyfer hyn; roedd y broses yn cynnwys Swyddogion yn mynd â'r ymholiadau hyn i'w llawn botensial, a'u cefnogi drwy'r cymorth ariannol a oedd ar gael. Fodd bynnag, esboniwyd bod meini prawf cynllunio amrywiol y byddai angen i'r safleoedd hyn eu bodloni, nad oeddent bob amser yn apelio at berchennog y tir. Roedd swyddogion yn ymwybodol o'r galw am gyfleusterau gwersylla a charafanio, a byddent yn helpu i'w hwyluso lle bo hynny'n bosib; fodd bynnag, yr unig ffordd o gyflawni hyn oedd pe bai'r sector preifat yn cyflwyno'r tir.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd modd rhoi'r darpariaethau hyn ar waith ar dir sy'n eiddo i'r cyngor, ac os felly, a ellid cynnal astudiaeth dichonoldeb ar gyfer hyn. Esboniodd swyddogion y byddai angen rhoi isadeiledd ar waith er mwyn hwyluso gwersylla a charafanio; roedd hefyd yn bwysig sicrhau bod y ddarpariaeth yn y lle iawn ac yn hygyrch i ymwelwyr. Nodwyd bod y cyngor eisoes wedi edrych ar Barc Margam fel ardal bosib i ddarparu ar gyfer y math hwn o lety, y gellid ymchwilio iddo eto yn y dyfodol ar ôl i'r cynigion presennol ar gyfer y parc gael eu cwblhau.

Yn dilyn yr uchod, dywedodd Swyddogion na fyddai darparu gwersylla a charafanio o reidrwydd yn darparu elw ariannol i'r cyngor; roedd angen rheoli'r safleoedd hyn yn effeithlon, a fyddai'n cynnwys

cael gweithwyr ar y safle yn barhaus i ateb ymholiadau cwsmeriaid a datrys unrhyw broblemau. Hysbyswyd yr Aelodau nad oedd y cyngor mewn sefyllfa i allu gwneud hynny ar hyn o bryd; fodd bynnag, roedd Swyddogion yn gallu helpu i annog y sector preifat i edrych ar y cyfleoedd amrywiol sydd ar gael.

Dywedodd y Rheolwr Twristiaeth y gallai'r ddarpariaeth ar gyfer gwersylla a charafanio fod yn ymarfer cwmpasu i'w gwblhau, ond byddai'n fuddiol fel cam gweithredu o fewn y Cynllun Rheoli Cyrchfannau newydd yn hytrach na darn o waith ar wahân; roedd y Tîm Twristiaeth yn dîm bach a byddai angen adnoddau sylweddol ar gyfer y math hwn o waith pe bai'n cael ei wneud ar wahân. Tynnodd Swyddogion sylw at yr angen i ymchwilio i'r ddarpariaeth hon, ac roeddent wedi cynnwys cyfeiriad ato yn yr adroddiad a ddosbarthwyd

Soniwyd bod ardaloedd ar draws y Fwrdeistref Sirol a allai ddarparu ar gyfer carafanau hunangynhwysol, na fyddai angen fawr ddim o ran isadeiledd arnynt; gallai hyn fod yn opsiwn i'w archwilio. Cadarnhaodd Swyddogion nad oedd angen cyfleusterau cyflenwad trydan bob amser i ddarparu ar gyfer y farchnad gwersylla a charafanio; roedd hwn yn faes o'r farchnad yr oedd y Tîm yn cadw llygad arno. Ychwanegwyd, lle mae cyfleoedd ariannu'n codi a fyddai'n caniatáu i'r cyngor hwyluso hyn ar ei dir, y byddai Swyddogion yn ymchwilio ymhellach iddo.

Gofynnodd yr Aelodau a ellid defnyddio tir ger y Metal Box, Milland Road, Castell-nedd i hwyluso llety gwersylla a charafanio. Dywedodd Swyddogion fod y tir hwn yn ardal fasnachol, a bod symudiadau cerbydau dros y bont yn anodd; felly, ni fyddai'r cyngor yn ystyried defnyddio'r safle hwn at y dibenion a amlygwyd.

Cadarnhaodd yr Aelod Lleol dros Ddwyrain Sandfields fod Aelodau'r Ward ger ardal glan môr Aberafan wedi bod yn cysylltu â Swyddogion ynghylch defnyddio tir o amgylch glan y môr at ddibenion gwersylla a charafanio; a byddent yn parhau i drafod y gwahanol bosibiliadau wrth symud ymlaen.

I gloi, dywedodd Swyddogion eu bod wedi archwilio safleoedd amrywiol ar draws y Fwrdeistref Sirol i nodi'r potensial ar gyfer cyfleusterau gwersylla a charafanio, ac y byddent yn parhau i wneud hynny; fodd bynnag, roedd yn bwysig i Swyddogion ddeall sut maent yn cael eu gwasanaethu, a pha ymrwymiad ac isadeiledd y byddai eu hangen. Nodwyd y gellid cynnwys unrhyw gynigion gan Aelodau yn y Cynllun Rheoli Cyrchfannau newydd, gan y byddai hyn yn rhoi darlun

cydlynol a strategol o'r hyn yr oedd y cyngor yn ceisio'i gyflawni yn y Fwrdeistref Sirol.

Codwyd y cyfleoedd posib a allai godi o'r Ganolfan Fyd-eang ar gyfer Rhagoriaeth Rheilffyrdd. Cadarnhaodd swyddogion y byddai'r Tîm, wrth i gynlluniau ddatblygu ymhellach ar gyfer hyn, yn manteisio ar unrhyw gyfleoedd i ymgysylltu â thwristiaid a chynyddu twristiaeth yn y Fwrdeistref Sirol.

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â Chronfa Codi'r Gwastad a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn y dyfodol. Soniodd yr Aelodau fod cyfleoedd i fuddsoddi mewn trafnidiaeth yng Nghronfa Codi'r Gwastad, ac y byddai'n ddefnyddiol cynnal astudiaeth dichonoldeb o amgylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin, er mwyn cyflawni'r potensial llawn o'r rownd ariannu honno. Tynnwyd sylw at y ffaith mai cronfa gyfalaf oedd Cronfa Codi'r Gwastad, a bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn seiliedig ar refeniw; Nid oedd gan Swyddogion fanylion llawn y Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan nad oeddent wedi cael eu rhyddhau eto, ond byddent yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau pan fyddai'r wybodaeth ar gael.

Anogodd Aelod y Cabinet dros Adfywio a Datblygu Cynaliadwy'r holl Aelodau i lobïo am gyllid sy'n ymwneud â Thwristiaeth, er mwyn gwella'r adnoddau o fewn y cyngor yn well.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

Bwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin - Fframwaith Llywodraethu a Llywodraethu Ariannol a Chytundeb Rhannu Risgiau

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor a oedd yn cynnig cymeradwyo fframwaith Llywodraethu Bwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin ac yn ceisio cymeradwyaeth i ymrwymo i gytundeb Llywodraethu Ariannol a Rhannu Risgiau gyda'r awdurdodau cyfrifol i'r Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA).

Hysbyswyd yr Aelodau am gamgymeriad a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, sef bod rhan o'r templed ysgrifennu adrodd safonol wedi'i adael yn yr adroddiad o dudalennau 32 i 34.

Rhoddodd Swyddogion drosolwg byr o'r adroddiad, yn ôl cais y Pwyllgor. Nodwyd nad oedd y BCA yn endid cyfreithiol ynddo'i hun, felly ni allai wneud gwaith penodol yn enw Bwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin; roedd hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i un o'r awdurdodau cyfrifol gymryd rôl banciwr ar gyfer y BCA. Hysbyswyd yr Aelodau fod Cyngor CNPT wedi ymgymryd â'r rôl hon; byddai'r

cyngor yn derbyn unrhyw arian, yn talu'r cyllid i ddarparwyr a byddai hefyd yn gyfrifol am unrhyw gontractio neu gomisiynu. Tynnwyd sylw at y ffaith bod Cyngor CNPT, dros y blynyddoedd, ar ran y BCA, wedi bod yn talu am gontractau hanesyddol ac etifeddiaeth yn unig; yr oedd Swyddogion wedi gallu eu diwygio, ond nid eu newid yn sylfaenol. Dywedwyd pe bai'r cyngor yn rhoi'r gwaith ar dendr neu debyg, byddai ar hyn o bryd yn ysgwyddo'r holl risg o her ar draws y rhanbarth.

Dywedwyd bod Swyddogion wedi parhau i fonitro a gwerthuso gwasanaethau, a sicrhau ansawdd y gwasanaethau a oedd wedi'u darparu; yn ogystal â gweithio o fewn y ddarpariaeth ddeddfwriaethol i greu gwasanaethau newydd a lliniaru risgiau i'r cyngor. Fodd bynnag, esboniwyd nad oeddent wedi gallu rheoleiddio na ffurfioli contractau presennol; nid oedd hyn yn ddelfrydol i'r awdurdod. Hysbyswyd y Pwyllgor fod Swyddogion wedi bod yn ceisio gweithio ar gytundebau amrywiol ers nifer o flynyddoedd lle y cytunwyd naill ai i rannu cyllid neu rannu risgiau; roedd wedi cymryd cryn dipyn o amser i gyrraedd y pwynt hwn lle'r oedd y BCA wedi mabwysiadu Fframwaith Llywodraethu a Llywodraethu Ariannol a Chytundeb Rhannu Risgiau.

Esboniodd Swyddogion fod y Fframwaith Llywodraethu'n nodi sut y bydd yn gweithredu'r broses o wneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau ei fod yn ymddwyn mewn modd tebyg i fusnes; mae'n deall y cylch gwaith y gall weithredu oddi mewn iddo a'r pwerau sydd ganddo. Ychwanegwyd bod y cytundeb Llywodraethu Ariannol a Rhannu Risgiau'n sicrhau y gellid rheoleiddio contractau sy'n bod, ailgomisiynu gwasanaethau a defnyddio'r broses dendro wrth symud ymlaen; caiff y ddogfen hon ei llofnodi gan bob sefydliad cyfrifol i'r BCA, y bydd angen iddynt, yn yr un modd, geisio cymeradwyaeth drwy eu strwythurau llywodraethu priodol. Ychwanegwyd y bydd hyn yn sicrhau bod y risg sy'n ymwneud â chontractio'n cael ei rhannu ar draws yr holl bartneriaid, ac nad Cyngor CNPT oedd yn ei dal yn unig.

Holodd yr Aelodau pam yr oedd wedi cymryd cymaint o amser i sefydlu'r fframwaith a'r cytundeb. Mae Swyddogion yn cydnabod faint o amser y cymerodd i gyrraedd y pwynt hwn, a thynnwyd sylw at y ffaith bod trafodaethau wedi bod yn digwydd ers nifer o flynyddoedd, gyda chytundebau amrywiol wedi'u hystyried; roedd rhai o'r cytundebau hyn wedi symud ymlaen i bwynt penodol, ac yna wedi'u tynnu, felly bu'n rhaid i'r broses ddechrau eto.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

## 3. BLAENRAGLEN WAITH

Cyfeiriwyd at y gweithdai ar gyfer y Cynllun Rheoli Cyrchfannau, a sut y byddai'r Pwyllgor yn rhan o'r gwaith hwn yn y dyfodol; Gofynnwyd i Swyddogion roi'r diweddaraf i'r Aelodau ar hyn.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch ansawdd aer, a oedd yn bwnc a gynhwyswyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor hwn. Gofynnwyd i'r Aelodau anfon e-bost at y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd i egluro'u pryderon, ac i dynnu sylw at ba wybodaeth bellach y gellid ei hychwanegu at yr adroddiad blynyddol ar ansawdd aer.

Nododd yr Aelodau'r Blaenraglen Waith Craffu Adfywio a Datblygu Cynaliadwy ar gyfer 2021/22.

**CADEIRYDD**